# BWRDD CYNLLUN HIRDYMOR Y DREF (CHyD)

## Cyfarfod Llywodraethu

## 15 EBRILL 2024

**Yn bresennol:** Paul Gray (Cadeirydd); Gerald Jones AS; Ellis Cooper; Alyn Owen; Cyng Geraint Thomas; Cyng Andrew Barry; Zoe Thomas; Paul Lewis; Victoria Parry; Ceri Dinham; Alex Stephens; Lis Mclean; Stephen Jones HDC; Sharon Richards; Elizabeth Bedford; Karen Courts.

**Ymddiheuriadau:** Lisa Thomas; Liam Hull.

| MATER | CAMAU GWEITHREDU | GAN | ERBYN |
|---|---|---|---|
| **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | | | |
| Ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Croesawodd PG bawb i'r cyfarfod. | | | |
| **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf** | | | |
| Adolygwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd ZT fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau gan gynnwys dyddiadau Cyfarfod Bwrdd y dyfodol, cyflwyniad CHyD CBSMT a anfonwyd at holl Aelodau'r Bwrdd a bod yr ardal derfyn a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i hanfon at Lywodraeth y DU.<br><br>Dywedodd ZT wrth Lywodraeth y DU fod y ffocws yn bennaf ar ganol y dref ond ni fydd cais i newid yr ardal derfyn yn ffurfiol.<br><br>Gan fod y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar Lywodraethu, bydd cofnodion Cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ynghyd â chofnodion y cyfarfod hwn yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ar 26 Ebrill. | Rhannu map ardal ffin canol y dref a gymeradwywyd gan y Bwrdd. | ZT | Cyfarfod nesaf |
| **Cytuno ar Gynrychiolwyr Ychwanegol i'r Bwrdd** | | | |
| Ar hyn o bryd mae gan y bwrdd craidd 10 aelod ar y Bwrdd. Mae Swyddogion Awdurdodau Lleol ond yn eistedd ar y Bwrdd mewn modd ymgynghorol heb unrhyw hawliau pleidleisio. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae gan bob aelod o'r Bwrdd hawliau pleidleisio. Mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd cyfanswm o 15 o aelodau ac yn seiliedig ar y canllawiau, rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i aelodau ychwanegol o Grwpiau Ffydd, Chwaraeon, y Sector Preifat ac Iechyd.<br><br>Gofynnwyd i'r Bwrdd enwebu Aelodau Bwrdd ychwanegol ond hefyd roi ystyriaeth ynghylch eu haddasrwydd i eistedd ar y Bwrdd neu gymryd rhan yn y gweithdai a gynhelir i lywio'r Cynllun Trefi yn y dyfodol.<br><br>Agorodd PG y Bwrdd am enwebiadau.<br><br>Cafodd llawer o sefydliadau eu henwebu fel Aelodau Bwrdd posibl a thrafodwyd pob sefydliad a enwebwyd ynghylch a fyddent fwyaf gwerthfawr ar y Bwrdd neu yn y gweithdai.<br><br>Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn gwahodd grŵp ffydd a bod y sector preifat yn cael ei gynrychioli ar hyn o bryd gan yr AGB. Mae angen mwy o ystyriaeth ar ymgysylltu â'r gymuned fusnes ehangach a sut y gellir eu cynrychioli yn y gweithdai.<br><br>Cadarnhawyd gan y Cyngor fod Partneriaeth Canol y Dref yn dal i fodoli, ond mae hwn yn Fwrdd hollol wahanol gyda blaenoriaethau penodol i gyflawni Rhaglen Llywodraeth y DU.<br><br>Cynigiodd PG y dylid gwahodd Clwb Pêl-droed a Rygbi Merthyr i eistedd ar y Bwrdd a chytunwyd ar hyn.<br><br>Bydd cysylltiad yn cael ei wneud â Grwpiau Ffydd er mwyn cytuno ar Aelodau o'r Bwrdd.<br><br>Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn y cyfarfod nesaf. | Cysylltu â CP Merthyr tudful a a CR Merthyr Tudful<br><br>Derbyn gwybodaeth ynghylch grŵp ffydd yng Nghanol y Dref | ZT<br><br>ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB<br><br>CYN GYNTED Â PHOSIB |
| **Cylch Gorchwyl** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cylch Gorchwyl drafft (CG) yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd i wneud sylwadau er mwyn iddynt gael eu cwblhau a'u cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ar 26 Ebrill.<br><br>Cyflwynwyd y Cylch Gorchwyl drafft i'r Bwrdd.<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a fyddai dirprwyon yn cael eu caniatáu a mater i'r Bwrdd oedd cytuno ar hyn. Cynhaliwyd llawer o drafodaethau ar fanteision ac anfanteision gan gynnwys effeithiau cyfnodau gwyliau, ymrwymiadau gwaith, diffyg gwybodaeth a chysondeb a'r cyfle i ddal i fyny â'r Cyngor yn dilyn cyfarfod a gollwyd.<br><br>Y pryder mwyaf yw bod cyfnod cyfyngedig i ddatblygu'r Cynllun a bod parhad a dealltwriaeth yn hanfodol dros y misoedd nesaf.<br><br>Gwahoddodd PG y Bwrdd i bleidleisio'n ffurfiol o blaid neu beidio dros Ddirprwy ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd CHyD.<br><br>Penderfynodd y Bwrdd yn erbyn dirprwyon ar gyfer aelodau.<br><br>Cytunwyd y byddai adolygiad o'r penderfyniad yn cael ei gynnal yn dilyn derbyn Cynllun y Dref. | E-bostio fersiwn drafft o'r Cylch gorchwyl i bob aelod | ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB |
| **Datblygiad Gwefan** | | | |
| Mae creu tudalen Rhaglen CTMT ar wefan CBSMT yn un o ofynion Llywodraeth y DU. Bydd y dudalen ar gyfer tryloywder ac i'r cyhoedd weld yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Rhaglen gan gynnwys Agendâu a Chofnodion Cyfarfod y Bwrdd ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig.<br>Pan gaiff ei datblygu, bydd ZT yn anfon dolen i'r Bwrdd.<br><br>Cytunwyd y bydd gan y Cadeirydd gyfrifoldeb i lofnodi unrhyw gyfathrebiadau. Dywedodd ZT wrth y Bwrdd bod Adroddiad Gwybodaeth yn mynd i'r Cabinet ar 17 Ebrill.<br><br>Roedd AB o'r farn y bydd y wefan yn offeryn defnyddiol a gofynnodd pwy sy'n gyfrifol am | Creu Tudalen Gwefan | ZT | CYN GYNTED Â PHOSIB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| hyrwyddo'r dudalen. Teimlai mai rôl y Byrddau oedd rhannu'r cynllun.<br><br>Dywedodd ZT wrth y bwrdd y bydd ymgynghoriad y Cynllun Creu Lleoedd yn mynd yn fyw yr wythnos nesaf ac mae hyn yn cael ei arwain gan Y Trefolwyr. Bydd gwybodaeth a gesglir o ymgynghoriadau eraill i'r cynllun yn ddefnyddiol. Roedd pryder ynghylch gorlwytho ymgynghoriad a bydd y Bwrdd yn sicrhau y bydd sefydliadau sydd wedi arwain ymgynghoriadau yn cael eu gwahodd i'r gweithdai i rannu gwybodaeth.<br><br>Bydd ZT yn rhannu'r cynllun ymgynghori â'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf. Cysylltir â phob Aelod o'r Bwrdd i gael trafodaeth benodol gyda'r Trefolwyr. | Rhannu Cynllun yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd | ZT | Ebrill |
| **Cyfarfod Nesaf** | | | |
| Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Ebrill. | | | |
| **UFA** | | | |
| Doedd dim UFA. | | | |